

## **Pecyn i ddysgwyr**

Datblygwyd y pecyn hwn gan Ganolfan Iaith Nant Gwrtheyrn gyda chefnogaeth Y Ganolfan  
Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Theatr Genedlaethol Cymru

### **Macbeth**

**gan William Shakespeare**

**Cyfieithiad**

**Gwyn Thomas**



## Crynodeb

Trasiedi gan William Shakespeare ydy Macbeth. Thema'r ddrama ydy uchelgais wleidyddol a brad.

Mae cadfridog dewr o'r Alban, Macbeth, yn derbyn neges gan dair gwrach y bydd un diwrnod yn frenin yr Alban. Mae Macbeth a'i wraig yn uchelgeisiol ac mae hi'n ei annog i ladd y Brenin Duncan a hawlio'r goron iddo'i hun. Mae o'n teimlo'n euog ac mae ei baranoia yn ei yrru i lofruddio mwy a mwy o bobl er mwyn ei amddiffyn ei hun, gan arwain at wallgofrwydd a marwolaeth!

## Natur y cynhyrchiad

Cynhyrchiad safle-benodol Theatr Genedlaethol Cymru - yn fyw o Gastell Caerffili - o glasur Shakespeare wedi ei gyfieithu o'r newydd i'r Gymraeg gan y diweddar Gwyn Thomas.

Mae'r cast yn cynnwys Richard Lynch (Pobol y Cwm, Y Gwyll) fel Macbeth, a Ffion Dafis (Byw Celwydd, Rownd a Rownd) fel ei wraig.

## Deuddeg gair hanfodol

anrhydedd	honour
arf(au)	weapon(s)
arglwydd/es	lord / lady
brad	betrayal
cadfridog	general
gwaed	blood
gwallgofrwydd	madness
gwrach(od)	witch(es)
henffych	hail
llofruddio	to murder
melltith	curse
uchelgais	ambition

## laith

Dim iaith bob dydd ydy iaith dramâu Shakespeare. Mae'r iaith yn gallu bod yn anodd ond mae'r stori gryf yn cario'r naratif.

Mae mesur pumban iambig (*iambic pentameter*) yn cael ei ddefnyddio yn aml mewn barddoniaeth Saesneg. Roedd William Shakespeare yn defnyddio'r mesur yma yn ei ddramâu. Mae un llinell arferol o fesur pumban iambig yn cynnwys pum sillaf di-acen a sillaf acennog yn dilyn ei gilydd. Mae'n debyg iawn i rythm curiad y galon, e.e.

Then live, Macduff; what need I fear of thee?  
But yet I'll make assurance double sure,  
And take a bond of fate: thou shalt not live;

Mae pob llinell yn cynnwys deg sillaf ac mae'r rhythm yn swnio fel hyn:

da DYM da DYM da DYM da DYM da DYM

Fel arfer, dydi'r llinellau ddim yn odli, ond mae dwy linell olaf rhai areithiau yn odli; mae hyn yn ffordd effeithiol o gloi'r araith.

Roedd Shakespeare yn defnyddio ymson (*soliloquy / monologue*) yn aml i ddweud ei straeon. Drwy'r ymson roedd yn gallu dangos meddyliau ei gymeriadau, yn ogystal â symud y stori ymlaen. Roedd hyn hefyd yn ffordd i'r gynulleidfa gael gwybod cyfrinachau nad oedd cymeriadau eraill y ddrama yn eu gwybod.

Dyma ddwy ymson enwog o'r ddrama Macbeth. Ewch dros y ddwy i gael eu hystyr. Yna darllenwch nhw'n uchel. Ydyn nhw'n dilyn patrwm y mesur pumban iambig fel mae dramâu Shakespeare yn Saesneg? Oes odl ar eu diwedd?

#### Act I Golygfa v

##### YR ARGLWYDDES MACBETH

Glamis, rwy'ti yn hynny'n barod, a Cawdor,

Ac fe fyddi di yr hyn 'addawyd iti.

Ond mae gen-i ofn dy natur di;

Y mae'n rhy llawn o laeth tynerwch dynol

I gipio'r ffordd agosaf. Fe ddymunet

Fod yn fawr, a 'dwyt ti ddim yn ddi-

Uchelgais, ond heb y clefyd hwnnw a ddylai

Ganlyn hynny. Y mawredd hwnnw 'fynnet ti,

Fe'i mynni mewn modd sanctaidd;

heb fod yn strygar;

Ac eto mynni, yn anghyfiawn, ennill.

Glamis fawr, fe fynnet ti, yr hyn sy'n gweiddi

“Fel hyn rhaid iti wneud, os am ei gael”,  
A hynny’n beth yr ofni di ei wneud,  
Yn fwy nag wyt ti yn dymuno ei ddad-wneud.  
Tyrd yma, tyrd ar frys, fel y galla’ i  
Dywallt f’ysbryd yn dy glust, a chwipio  
Ag eofndra ’nhafod y cwbl oll  
Sydd yn dy rwystro di rhag y cylch aur  
Y mae ffawd a help goruwchnaturiol  
Fel pe baen nhw am fynnu dy goroni di.

....

Mae’r gigfran honno’i hun yn gryg sy’n crawcian  
Am ddyfodiad angheuol Duncan dan furiau  
’Nghaerau i. Dowch, chi’r ysbrydion hynn  
Sy’n gweini ar feddyliau marwol: yma  
Dadrywiwch fi, a llenwch fi o ’nghorun  
Hyd fy modiau yn gyforiog lawn  
O’r creulondeb mwyaf erchyll. Perwch  
Chi dewychu ’ngwaed, a chau’r mynediad  
A’r tramwy i drugaredd, fel na bo  
I unrhyw ysgogiadau o edifeiriol  
Natur siglo ’mwriad mwyaf ’sgeler i,  
Na chadw heddwch rhwng hynny a’i gyflawni.  
Dowch at fy mronnau i sy’n wraig, a

Ffeirio Fy llaeth i am fustl, chi weinidogion  
Llofruddiaethau, ble bynnag yn eich  
Amgylchiadau Di-weld yr ydych chi yn gweini ar  
Ddrygioni natur. Tyrd, ddudew nos,  
Gorchuddia di dy hun ym mwg tywyllaf

Uffern, fel na wêl hi - fy nghyllell lem -  
Yr archoll mae'n ei pheri, ac fel na sbecia'r  
Nefoedd trwy gwrlid y tywyllwch du i weiddi,  
“Atal, atal!”

## ACT II Golygfa i

MACBETH

Ai dagr ydi'r hyn a wela' i  
O 'mlaen, a'r carn tuag at fy llaw?  
Tyrd, gad imi afael ynot.  
Methu gafael, ac eto rwyf fi'n  
Dy weld o hyd. Wyt ti, O weledigaeth ddreng,  
Yn un y gellir ei hamgyffred hi  
Â'r teimlad fel â'r golwg? Ynteu a wyt-ti'n  
Ddim ond dagr yn y meddwl,  
Yn greadigaeth ffals, sy'n deillio o'r  
Ymennydd sydd dan ormes gwres?  
Rwyf fi'n dy weld o hyd, mor hawdd  
Ei chyffwrdd â hon a dynna' i o'i gwain.  
[Mae'n dadweinio'i gyllell.]  
Rwyf ti'n fy arwain i ar hyd y ffordd  
Yr oeddwn i'n ei dilyn,

I ddefnyddio offeryn tebyg i'r un  
Yr oeddwn innau am ei drin.  
Fe wneir fy llygaid i yn ffyliaid  
I'm synhwyrâu eraill, neu maen' nhw  
Yn werth y lleill i gyd. Yr wyf fi'n  
Dal i dy weld di; ac ar dy lafn a'r carn  
Mae clytiau gwaed, nad oedden nhw ddim yno cynt.

'Does mo'r fath beth. Y mater gwaedlyd sydd  
Yn hysbysu'm llygaid i fel hyn.  
Yn awr, yn un hanner o'r byd mae natur  
Fel pe'n farw, ac mae breuddwydion  
Dreng yn difetha llenni cwsg;  
Mae swyngyfaredd yn dathlu offrymau gwelwon Hecate; a llofruddio gwyw -  
Ar rybudd ei wlyedydd, sef y blaidd:  
Ei udo ydi'i larwm - a ddaw'n lladradaidd,  
Gyda chamre treisiol Tarquin, fel drychiolaeth  
At ei nod. Ti, ddaear sicr a chadarn  
Ei gosodiad, na foed iti glywed  
Sŵn fy nghamau, ffordd yr ânt, rhag ofn  
I'r cerrig hyn sydd yma barablu  
Am le yr wyf fi, a dwyn yr arswyd hwn  
Oddi-ar yr amser, sy'n awr yn gweddu iddo.  
Tra yr wyf fi yn bygwth, mae e'n fyw:  
I wres y gweithrediadau y mae geiriau'n  
Rhoi anadl rhy oer iddynt.  
[Mae cloch yn canu.]

Mi a'-i, a dyna ben. Gwahodda'r  
gloch. Paid ti â'i chlywed, Duncan,  
am mai cnul yw hi. Sydd i nef neu uffern yn dy alw di.

### Areithiau enwog

#### Araith 1: Act 1 Golygfa V: Yr Arglwyddes Macbeth

Glamis, rwyf ti yn hynny'n barod, a Cawdor,	
---	--

Ac fe fyddi di yr hyn 'addawyd iti.	addo > to promise addawyd > was promised (gorffennol amhersonol)
Ond mae gen-i ofn dy natur di;	
Y mae'n rhy llawn o laeth tynerwch dynol	tynerwch > tenderness
I gipio'r ffordd agosaf. Fe ddymunet	dymuno > to desire / to wish dymunet > you would desire
Fod yn fawr, a 'dwyt ti ddim yn ddi-	
Uchelgais, ond heb y clefyd hwnnw a ddylai	uchelgais > ambition
Ganlyn hynny. Y mawredd hwnnw 'fynnet ti,	mawredd > greatness mynnu > to insist (upon having) fynnet ti > you would insist (upon having) / you would have
Fe'i mynni mewn modd sanctaidd; heb fod yn strywgwr;	mynni > you insist (upon having) / are determined to have strywgwr > false / using trickery
Ac eto mynni, yn anghyfiawn, ennill.	yn anghyfiawn > unjustly
Glamis fawr, fe fynnet ti, yr hyn sy'n gweiddi	
"Fel hyn rhaid iti wneud, os am ei gael",	
A hynny'n beth yr ofni di ei wneud,	
Yn fwy nag wyt ti yn dymuno ei ddad-wneud.	dad-wneud > to undo
Tyrd yma, tyrd ar frys, fel y galla' i	
Dywallt f'ysbryd yn dy glust, a chwipio	tywallt > to pour
Ag eofndra 'nhafod y cwbl oll	eofndra > boldness / valour tafod > tongue (fy) nhafod > my tongue
Sydd yn dy rwystro di rhag y cylch aur	
Y mae ffawd a help goruwchnaturiol	ffawd > fate goruwchnaturiol > supernatural
Fel pe baen nhw am fynnu dy goroni di...	fel pe baen nhw > fel tasen nhw > as if they
Mae'r gigfran honno'i hun yn gryg sy'n crawcian	cigfran > raven cryg > hoarse crawcian > to croak
Am ddyfodiad angheuol Duncan dan furiau	dyfodiad > arrival angheuol > fatal

'Nghaerau i. Dowch, / <i>Dewch</i> chi'r ysbrydion hynny	caer(au) > fort(s) (fy) nghaerau i > my forts
Sy'n gweini ar feddyliau marwol: yma	gweini > to wait upon marwol > deadly
Dadrywiwch fi, a llenwch fi o 'nghorun	dadrywio > to unsex dadrywiwch > unsex (gorchymyn) llenwi > to fill llenwch > fill (gorchymyn) corun > crown or top of head (fy) nghorun > my crown or top of my head
Hyd fy modiau yn gyforiog lawn	bodiau > toes fy modiau > my toes cyforiog > overflowing
O'r creulondeb mwyaf erchyll. Perwch	creulondeb > cruelty erchyll > horrific / dreadful peri > to bring about perwch > bring about / cause to happen (gorchymyn)
Chi dewychu 'ngwaed, a chau'r mynediad	tewychu > to thicken
A'r tramwy i drugaredd, fel na bo	tramwy > passage drugaredd > mercy
I unrhyw ysgogiadau o edifeiriol	ysgogiad(au) > impulse(s) edifeiriol > repentant
Natur siglo 'mwriad mwyaf 'sgeler i,	bwriad > intention (fy) mwriad > my intention 'sgeler > wicked
Na chadw heddwch rhwng hynny a'i gyflawni.	cadw > to keep na chadw > nor keep
Dowch at fy mronnau i sy'n wraig, a ffeirio	ffeirio > to exchange
Fy llaeth i am fustl, chi weinidogion	bustl > bile gweinidog(ion) > minister(s)
Llofruddiaethau, ble bynnag yn eich amgylchiadau	llofruddiaeth(au) > murder(s) amgylchiad(au) > situation(s)
Di-weld yr ydych chi yn gweini ar	di-weld > unseeing
Ddrygioni natur. Tyrd, ddudew nos,	drygioni > wickedness dudew > jet-black
Gorchuddia di dy hun ym mwg tywyllaf	gorchuddio > to cover gorchuddia > cover (gorchymyn) tywyllaf > darkest



Uffern, fel na wêl hi - <b>fy nghyllell</b> lem -	uffern > hell gweld > to see na wêl hi > she (it) does not see llym > sharp lem > sharp (benywaidd)
Yr <b>archoll</b> mae'n ei pheri, ac fel na <b>sbecia</b> 'r	archoll > wound sbecio > to peeps sbecia > she (it) peeps
Nefoedd trwy <b>gwrlid</b> y tywyllwch du i weiddi,	cwrlid > blanket
" <b>Atal</b> , atal!"	atal > to stop atal! > stop! (gorchymyn)

### Araith 2. Act 2 Golygfa 1: Macbeth

Ai dagr ydi'r hyn a wela' i	
O 'm <b>laen</b> , a'r <b>carn</b> tuag at fy llaw?	blaen > before o (fy) mlaen > before me carn > handle
Tyrd, gad imi afael <b>ynot</b> .	ynot > in you
Methu gafael, ac eto rydw i'n	
Dy weld o hyd. Wyt ti, O <b>weledigaeth ddreng</b> ,	gweledigaeth > vision dreng > perverse
Yn un y gellir ei <b>hamgyffred</b> hi	amgyffred > to comprehend
Â'r teimlad fel â'r golwg? Ynteu a wyt ti'n	
Ddim ond dagr <b>yn y meddwl</b> ,	
Yn <b>greadigaeth ffals</b> , sy'n <b>deillio</b> o'r	creadigaeth > creation ffals > false deillio > to derive
Ymennydd sydd dan <b>ormes</b> gwres?	gormes > oppression
Yr ydw i'n dy weld o hyd, mor hawdd	
Ei <b>chyffwrdd</b> â hon a dynna' i o'i <b>gwain</b> .	cyffwrdd > to touch gwain > sheath
[ <i>Mae'n dadweinio'i gyllell.</i> ]	
Rwyd ti'n fy <b>arwain</b> i <b>ar hyd y ffordd</b>	arwain > to lead
Yr oeddwn i'n ei <b>dilyn</b> ,	dilyn > to follow
I ddefnyddio offeryn tebyg i'r un	
Yr oeddwn innau am ei <b>drin</b> .	trin > to handle

Fe wneir fy llygaid i yn ffyliaid	ffŵl > fool ffyliaid > fools
I'm synhwyrâu eraill, neu maen' nhw	synnwyr > sense synhwyrâu > senses
Yn werth y lleill i gyd. Yr ydw i'n	
Dal i dy weld di; ac ar dy lafn a'r carn	llafn > blade
Mae clytiau gwaed, nad oedden nhw ddim yno cynt.	clwt > patch clytiau > patches
'Does mo'r fath beth. Y mater gwaedlyd sydd	gwaedlyd > bloody
Yn hysbysu'm llygaid i fel hyn.	hysbysu > to inform
Yn awr, yn un hanner o'r byd mae natur	
Fel pe'n farw, ac mae breuddwydion	
Dreng yn difetha lleni cwsg;	dreng > morose
Mae swyngyfaredd yn dathlu offrymau gwelwon Hecate; a llofruddio gwyw -	swyngyfaredd > sorcery offrwm/offrymau > offering/s gwyw > withered
Ar rybudd ei wyliedydd, sef y blaidd:	gwyliedydd > sentinel
Ei udo ydi'i larwm - a ddaw'n lladradaidd,	udo > howling lladradaidd > stealthy / furtive
Gyda chamre treisiol Tarquin, fel drychiolaeth	camre > footsteps treisiol > violent drychiolaeth > apparition
At ei nod. Ti, ddaear sicr a chadarn	
Ei gosodiad, na foed iti glywed	gosodiad > composition na + boed = na foed i ti > may you not
Sŵn fy nghamau, ffordd yr ânt, rhag ofn i'r cerrig hyn sydd yma barablu	cam(au) > step(s) fy nghamau > my steps ânt > they will go parablu > to babble
Am lle'r ydw i, a dwyn yr arswyd hwn	arswyd > horror
Oddi-ar yr amser, sy'n awr yn gweddu iddo.	gweddu > to suit
Tra rydw i yn bygwth, mae o yn fyw:	bygwth > to threaten
I wres y gweithrediadau y mae geiriau'n	gweithred(iadau) > action(s)
rhoi anadl rhy oer iddynt.	anadl > breath
[Mae cloch yn canu.]	
Mi a'i, a dyna ben. Gwahodda'r gloch.	gwahodd > to invite gwahodda > invite (gorchymyn)

Paid ti â'i chlywed, Duncan, am mai <b>cnul</b> yw hi	cnul > death-knell
Sydd i nef neu uffern yn dy alw di.	

Fedrwch chi ddod o hyd i'r ymadroddion hyn yn yr ymson?

in the mind  
along the way  
previously

### Cwestiynau trafod

1. Mae'r gwrachod a'r goruwchnaturiol yn chwarae rhan bwysig yn y ddrama. Dych chi / Dach chi wedi cael unrhyw brofiad goruwchnaturiol? Oes 'na straeon am ysbrydion neu wrachod yn eich ardal chi? Rhannwch eich straeon gyda'r / efo'r dosbarth

2. Ydi stori Macbeth yn berthnasol i ni heddiw? Fyddech chi'n / Fasech chi'n cytuno bod llawer o bobl yn mynd yn wleidyddion er mwyn gwella'r byd, ond yn newid ar ôl cael pŵer? Fedrwch chi feddwl am enghreifftiau cyfoes?



## Sibrwd

**Ap gan Theatr Genedlaethol Cymru sy'n sibrwd cyfieithiad yn eich clust.**  
The app by Theatr Genedlaethol Cymru which whispers a translation in your ear.

**Mae'r ap Sibrwd ar gyfer ffonau symudol yn rhoi'r cyfle i gynulleidfaoedd theatr fwynhau perfformiadau mewn unrhyw iaith.**

The Sibrwd app which can be used on mobile phones gives theatre audiences the opportunity to enjoy performances in any language.

**Cafodd yr ap Sibrwd ei greu yn bennaf i roi mynediad i ddysgwyr a'r di-Gymraeg at ddramâu Cymraeg, ac i gyfoethogi eu profiad theatrig. Gan ddefnyddio clustffonau mae'r ap yn sibrwd pytiau o eglurhad yn Saesneg, i gynnig cymorth wrth ddilyn yr hyn sy'n digwydd ar llwyfan trwy gyfrwng y Gymraeg.**

The app was created to enrich the theatrical experiences of learners and non-Welsh speakers. Using headphones, the app whispers snippets of explanations in English to offer assistance whilst following the drama itself on stage in Welsh.

**Mae'r ap ar gael am ddim i'w lawrlwytho ar gyfer iPhone ac Android.**

The app, which is free, is available to download on iPhone and Android.

*“Ar ôl gosod popeth yn ei le, eisteddais i lawr yn dal i deimlo braidd yn bryderus na fyddwn yn gallu gweithio'r ap. Yna, fel petai trwy hud a lledrith, wrth i oleuadau'r theatr bylu, dechreuodd llais mwyn sibrwd yn fy nghlust a chamodd y cymeriadau cyntaf ar y llwyfan. Ac am weddill y perfformiad, cyn gynted ag y byddwn yn dechrau meddwl tybed beth oedd yn digwydd ar y llwyfan, roedd y naratif yn rhoi digon o wybodaeth i mi allu dilyn y plot heb amharu dim ar y perfformiad. Dechreuais ymlacio, rhoi fy ffydd yn y dechnoleg, a mwynhau gwranddo. Ac am weddill y perfformiad doedd dim rhaid i mi gyffwrdd unrhyw fotymau, na throi unrhyw beth i ffwrdd nac ymlaen - ro'n i'n gallu gadael y cyfan i Sibrwd.”*

Am ddisgrifiad o brofiad Elaine Paton wrth ddefnyddio Sibrwd, darllenwch yr erthygl ddifyr hon: <http://ccqmagazine.com/plugged-sibrwd/>